

# Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru

Yr adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol  
Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru

**Mai 2017**

## CYNNWYS

Rhagair gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Cyflwyniad gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC

### Y Cynnig

#### *CYFLAWNI DROS GYMRU*

- 1 MAE TIRWEDDAU'N BWYSIG
- 2 GWELEDIGAETH GYFOES NEWYDD
- 3 GWIREDDU POTENSIAL TIRWEDDAU
- 4 GWEITHIO Y TU HWNT I FFINIAU

#### *ADDAS I'R DIBEN*

- 5 EGWYDDORION LLYWODRAETHU NEWYDD
- 6 GWELLA PERFFORMIAD
- 7 ARLOESI O RAN ADNODDAU
- 8 HYBU LLESIANT A CHYDNERTHEDD

#### *AWYDD I NEWID*

- 9 BLAENORIAETHAU O RAN GWEITHREDU

Atodiad

Adroddiad Marsden

## Rhagair gan by Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig



Mae Tirweddau'r Dyfodol Cymru wedi bod yn rhaglen a lle gwelwyd llawer iawn o gydweithio ac mae wedi cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid wrth fynd ati i drafod ac i ystyried. Mae angen amser i ddatblygu'r math o berthynas sydd ei hangen er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chreu consensws, ond mae'r berthynas honno wedyn yn sylfaen fwy cadarn ar gyfer symud y gwaith yn ei flaen. Er mwyn cydweithio fel hyn, mae gofyn i Lywodraeth Cymru chwarae rôl newydd, gan agor y drws i eraill wrth bennu'r fframwaith polisi a deddfwriaethol

strategol, a rhaid iddi ymrwymo i weithio ar y cyd â'i phartneriaid i ymateb i'r heriau a nodwyd.

Mae adnoddau naturiol ac escosystemau Cymru yn sail i bob agwedd ar ein llesiant, gan gynnwys ein ffyniant, ein hiechyd a'n diwylliant. Rydym yn dibynnu ar adnoddau naturiol o ansawdd uchel i ddarparu'n bwyd, a dŵr ac aer glân. Mae chwarter tir Cymru wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Barc Cenedlaethol ac mae angen i'r dynodiadau hynny fod yn gydnaws â'r dyheadau yn ein fframwaith deddfwriaethol newydd – y cyntaf o'i fath yn y byd. Mae angen iddynt hefyd fynd at i wireddu'r dyheadau yn y fframwaith hwnnw, sy'n pwysleisio bod defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol yw gwbl greiddiol i'n ffyniant a'n llesiant yn y dyfodol.

Yn ôl yr adroddiad cyntaf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yng Nghymru, mae problemau o ran cydnerthedd yn holl ecosystemau Cymru, a dyna pam y gallai'r gwasanaethau a'r buddion y maent yn eu cynnig fod mewn perygl. Mae'r ffaith bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn achosi cryn gythrwfl i'r sectorau allweddol sy'n dylanwadu ar sut y defnyddir adnoddau naturiol, a hynny ar adeg pan gydnabyddir bod angen gweithredu er mwyn gwneud ecosystemau'n fwy cydnerth. Mae'r Cynnig a ddatblygwyd gan Raglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru yn amlinellu ymateb y tirweddau dynodedig i'r her honno. Mae'n manteisio ar y cryfderau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â phartneriaethau a chydweithio go iawn, ac mae'n dadlau o blaid strwythurau ac ymatebion mwy hyblyg fel y bo modd diwallu anghenion lleoedd a chymunedau.

Mae'r gwaith mawr a wnaed yn gyntaf gan yr Athro Terry Marsden a'i Banel, ac yna gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC a'r gweithgor, yn golygu bod gan y tirweddau dynodedig bellach rôl a all helpu i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol mwyfwy cymhleth, ac anghydraddoldeb o ran llesiant ac iechyd. Gallant helpu hefyd i sicrhau cymunedau gwledig mwy llewyrchus.

Yr her bellach yw gwireddu'r uchelgais hwn, nid ar ein pen ein hunain, ond gyda'n gilydd, wrth inni goleddu'r ffordd gydweithredol o weithio y bydd ei hangen ar Gymru er mwyn mynd i'r afael â'r materion amgylcheddol a chymdeithasol cymhleth sy'n ein hwynebu.

## Cyflwyniad gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC



Fel un sy wedi byw ar hyd ei oes o gwmpas Eryri roedd y gwahoddiad gan Weinidogion Cymru, Carl Sargeant AC ac yna Lesley Griffiths AC, i gadeirio gweithgor Tirweddau'r Dyfodol yn fraint arbennig.

O'r dechrau, gan gymryd Adroddiad Marsden fel man cychwyn, roedd y broses hon un wahanol, yn newydd a chynhwysol, wrth i ni symud i gytuno rhwng y rhanddeiliaid ar egwyddorion a rhaglen weithredol. Fe benderfynwyd ar ddechrau'r cylch gorchwyl na fydden yn dynwared y drefn draddodiadol o gytuno ar adroddiad annibynnol gan aros wedyn am 'ymateb llywodraeth'.

Partneriaeth oedd yn nodweddu'r gweithgor o'r dechrau, gan gynnwys pawb o awdurdodau parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, o fusnesion amaethyddol a thwristiaeth, a mudiadau gwirfoddol ac ymddiriedolaethau, a swyddogion llywodraeth yn cyfrannu yn gyfartal yn y trafodaethau. I mi gall hyn fod yn fodel cynhyrchiol a chreadigol i ddatblygu polisiau cyhoeddus a llunio deddfwriaeth ddatganoledig at y dyfodol.

Yr egwyddor sylfaenol oedd yn arwain ein gwaith yw gweld a deall rôl tirweddau dynodedig nid fel ardaloedd wedi'u hallgau ar wahân, ond fel rhan nodedig allai gyfrannu eu harferion da i weddill tirwedd ein gwlad. Y ein barn ni mae hyn yn dilyn ysbryd Adroddiad Marsden a'r trywydd Cymreig nodweddiadol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016.

Rydym yn gweld gwerth ac 'arbenigrwydd' yn ein holl dirweddau amrywiol, fel amwynder nodedig pun ai'n swyddogol ddynodedig ai peidio, i fod yn sail i fywyd cynaliadwy.

## Y Cynnig

### *Cyflawni dros Gymru*

Y tirweddau dynodedig ddylai fod yn sbarduno'r gwaith o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn eu hardaloedd, a hynny o fewn y fframwaith a bennwyd gan ddeddfwriaeth Cymru.

Mae mwy i nodweddion arbennig y tirweddau dynodedig na'u gwerth gweledol a'u hamwynderau yn unig. Mae gan y nodweddion hynny hefyd rôl allweddol i'w chwarae o ran darparu buddion cyhoeddus a phreifat ehangach y tu mewn a'r tu allan i'w hardaloedd. Dylai fod perthynas glir a ffurfiol rhwng nodweddion arbennig ardal ddynodedig a'r partneriaethau, y pwerau a'r polisiau sy'n hybu rheolaeth gynaliadwy arni.

Mae gan y cyrff a'r partneriaethau gyfle penodol i helpu i wireddu potensial economaidd eu cymunedau ac i hyrwyddo a bod yn esiampl o dwf gwyrdda chydnerthedd ecosystemau.

Mae gan bob tirwedd nodweddion arbennig. Dylai'r cyrff a'r partneriaethau sy'n gyfrifol am y tirweddau dynodedig fynd ati gyda'i gilydd i hyrwyddo gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pob tirwedd, a defnydd cynaliadwy ohonynt, gan weithio ar draws ffiniau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a chyda phartneriaethau lleol.

### *Addas i'r diben*

Dylai unrhyw fodelau llywodraethu yn y dyfodol ganiatáu i ardaloedd y tu allan i'r tirweddau dynodedig weithio mewn partneriaeth i reoli mewn ffyrdd cynaliadwy, a dylai'r modelau hynny wobrwyo neu gydnabod y camau gweithredu hynny.

Dylai'r modelau llywodraethu presennol mewn tirwedd ddynodedig esblygu, ar sail egwyddorion craidd, i adlewyrchu'r ffaith bod anghenion a chyfleoedd yn newid.

Dylai'r llywodraethu gynnwys amrywiaeth eang o fodelau darparu a phartneriaethau, gan gynnwys rhannu neu ddirprwyo cyfrifoldebau, a dylai fod gan y modelau hynny weledigaeth gyffredin.

Dylid datblygu dull cyson o gynllunio ac adrodd ar berfformiad, a dylai gael ei fabwysiadu wedyn gan unrhyw dirweddau dynodedig sy'n bodoli eisoes a chan unrhyw dirweddau a ddynodir yn y dyfodol.

Dylid pennu pwyntiau adolygu ffurfiol ar gyfer modelau llywodraethu sy'n bodoli eisoes a hefyd ar gyfer modelau llywodraethu newydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben, ac mae'n bosibl y gallai ardaloedd gynnig trefniadau newydd.

Dylid mabwysiadu partneriaethau ehangach a modelau cyllido arloesol, lle caiff adnoddau eu denu a lle dylanwedir ar fuddsoddiad er mwyn arfer rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn yr ardal.

## CYFLAWNI DROS GYMRU

### 1 MAE TIRWEDDAU'N BWYSIG

*'...Credaf yn gyson a chydag arddeliad angerddol fod dimensiynau cymdeithasol a moesegol tir yn elfennau hanfodol mewn unrhyw gysylltiad aeddfed â lle. A chanlyniad ymarferol hynny yw'r busnes anodd o gysylltu â chymdeithasau dynol sy'n preswyllo mewn lleoliad – y rheini sydd wedi byw yno dros y canrifoedd, y mae eu bodolaeth wedi'i naddu i mewn i'r dirwedd ddiwylliannol, yn ogystal â'r rheini sy'n byw yno 'nawr'.*

Cyfieithiad o waith y Tad Dorian Llywelyn – The Picturesque, Arian Byw/Live Culture, 2004

Mae'r cysylltiad cynhenid rhwng pobl a lleoedd yn gonglfaen pwysig i lesiant yng Nghymru. Mae tirweddau o bob lliw a llun (gwledig, trefol, arfordirol, morol, diwydiannol, etc.) yn llunio teimladau a hunaniaeth unigolion, cymunedau a'r genedl. Mae tirweddau'n helpu pobl i ddeall eu gorffennol. Maen nhw'n dylanwadu ar y presennol ac yn helpu i fynegi gobeithion cymdeithas ar gyfer y dyfodol. Yr hyn y mae Tirweddau'r Dyfodol Cymru am ei wneud yw datgloi potensial llawn pob tirwedd yng Nghymru, gan gynnwys tirweddau dynodedig, fel eu bod yn addasu i faterion cyfoes ac yn diogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae lleoedd, a'r tiriogaethau lle mae'r lleoedd hynny, yn elfen sylfaenol o fodolaeth y ddynolryw. Ynddyn nhw y mae'r adnoddau naturiol sydd eu hangen i gefnogi llesiant, a hefyd y tirweddau diwylliannol sydd, drwy'r berthynas hanesyddol rhwng pobl a lleoedd, yn atgyfnerthu hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn. Yn hyn o beth:

- Rhaid i dirweddau dynodedig sbarduno'r gwaith o ddefnyddio a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.
- Mae pob lle, mawr neu fach, trefol neu wledig, ar dir neu ar fôr, yn rhan o glytwaith o leoedd rhyng-gysylltiedig; mae angen i bob un allu gwireddu ei botensial ei hun i fod yn fwyfwy llewyrchus, yn fwy ffyniannus, yn atyniadol ac yn groesawgar.
- Rhaid i gasgliad Cymru o dirweddau dynodedig barhau i gyflawni er mwyn iddynt gael eu cydnabod yn dirweddau o bwysigrwydd rhyngwladol ac yn asedau cenedlaethol pwysig.

A hwythau'n fynegiant gweledol o hunaniaeth, mae tirweddau Cymru yn chwarae rhan bwysig yn y broses o greu cenedl unigryw. Ystyrir bod rhai ohonynt yn eiconig, ac fe'u gwelir mewn lluniau a ddefnyddir ledled y byd i gyfleu negeseuon am hunaniaeth Cymru fel gwlad. Un agwedd arwyddocaol ar Gymru yw ei hymdeimlad o *fro*, sy'n ganolog i hunaniaeth cymunedau ac i'r ffordd y mae llawer o bobl yng Nghymru yn mynegi eu hymdeimlad o berthyn i le penodol.

*"Mae gan bob cenedl aeddfed ei thirweddau symbolaidd. Maen nhw'n rhan o'r set o syniadau ac atgofion cyffredin sy'n uno pobl"* (cyfieithiad o waith Meinig 1979, 164)

Mae'r tirweddau dynodedig, a ystyriwyd unwaith yn ddim byd mwy nag 'ysgyfaint gwyrdd' goddefol ar gyfer y poblogaethau trefol, yn llawer mwy na hynny bellach. Cadarnhaodd y gwaith a wnaed gan raglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru eu bod yn ddynamig, yn gynhyrchiol a'u bod yn cefnogi naratif cyfoes amlwg. Mae Cymru wedi amlinellu amcanion beiddgar yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi inni fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a llwybr at ecosystemau cydnerth sy'n allweddol er mwyn sicrhau rhagor o fuddion economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Y cysylltiad hwn rhwng angen cyfoes a chyfle, tirwedd, hunaniaeth, a llesiant sy'n sbarduno gweledigaeth newydd ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru. Rhaid i'r tirweddau dynodedig osod esiampl o ran mynd i'r afael â heriau amgylcheddol a chymdeithasol cymhleth drwy gydweithio'n gryf yn lleol mewn ffordd sy'n cynnal ac yn cyfrannu mwy at lesiant Cymru. Er mwyn gwneud hynny, mae angen gweithredu'n effeithiol ar y lefel genedlaethol i lywio a dylanwadu ar flaenoriaethau a chynlluniau strategol, ond gan sicrhau ar yr un pryd bod y mandad yn parhau'n gredadwy a chynnal y math o berthynas ag eraill sydd ei angen er mwyn cyflawni mewn ardal leol.

## **2 GWELEDIGAETH GYFOES NEWYDD**

Mae gan dirweddau dynodedig Cymru ran allweddol i'w chwarae yn ffyniant Cymru yn y dyfodol. Cydnabyddir bod Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn asedau cenedlaethol pwysig, ac mae gennym feddwl mawr ohonynt. Er hynny, mae yna ddealltwriaeth yn y tirweddau dynodedig eu hunain, a'r tu allan iddynt, y gallent gyflawni mwy fyth ar ôl y newidiadau deddfwriaethol diweddar.

Mae cryn awydd i fabwysiadu dull mwy cydweithredol o weithio er mwyn datblyg a gweithredu gweledigaeth strategol sy'n rhoi lle canolog i lesiant pobl, ac sy'n ffordd well o gefnogi'r bwriad o weithio y tu hwnt i ffiniau traddodiadol. Mae gwaith rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru wedi bod yn fodd i ddarbwylllo holl arweinwyr y tirweddau dynodedig, yn ogystal ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, i gefnogi gweledigaeth newydd.

### **Ein Gweledigaeth**

*Mae Cymru, fel cenedl, yn gwerthfawrogi ei thirweddau am yr hyn y gallant ei ddarparu i bobl yng Nghymru a thu hwnt. Mae tirweddau dynodedig Cymru yn gweithredu y tu mewn i'w ffiniau, a'r tu allan iddynt, i wella eu hadnoddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol; gan sicrhau'r buddion mwyaf posibl o ran llesiant i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol a mynd ati ar yr un pryd i wella'r union nodweddion sy'n eu gwneud yn nodedig ac yn annwyl.*

### 3 GWIREDDU POTENSIAL TIRWEDDAU

Mae'n bosib crynhoi hanfod y diwygiadau sy'n cael eu hargymell gan Adroddiad Marsden fel 'hyrwyddo' sefyllfa lle bydd y ddyletswydd sydd ar y Parciau Cenedlaethol ar hyn o bryd i roi sylw i lesiant economaidd-gymdeithasol yr ardal yn dod yn un o'u dibenion, ac i fabwysiadu'r un dibenion ar gyfer AHNE. Mae'n bosib i'r holl argymhellion eraill fod yn rhai sy'n ymwneud â'r strwythurau, y pwerau a'r offer sydd eu hangen er mwyn bwrw ymlaen â hynny. Mae'r diwygiad penodol hwn i'r dibenion presennol wedi'i ystyried yng nghyd-destun y mynegiant ehangach a mwy modern a geir yn y ddwy Ddeddf ddiweddar ar gyfer Cymru, a hefyd yng ngoleuni arferion cyfredol.

Yn y fframwaith deddfwriaethol sydd ohoni, mae'r dehongliad cyfoes o'r swyddogaeth ehangach hon sydd gan Barciau Cenedlaethol ac AHNE yn ymwneud â rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, a hynny yng nghyd-destun y Nodau Llesiant, gyda pherthynas ffurfiol â noweddion arbennig yr ardal..

Mae Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru wedi adolygu arferion cyfredol ar draws cynlluniau a mentrau rheoli tirweddau dynodedig, ac wedi canfod bod y sefydliadau a phartneriaethau arweiniol yn ymgymryd eisoes â chryn dipyn o weithgarwch ehangach. Er hynny, wrth ddadansoddi, gwelwyd bod bwlch rhwng y gweithgarwch hwn a chanfyddiadau am weithgarwch datblygu economaidd a photensial tirweddau dynodedig.

Yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth newydd, gwnaeth y Rhaglen hefyd nodi'r angen i ailedrych ar yr hyn sy'n gwneud yr ardaloedd hyn yn arbennig. Er bod nodweddion arbennig yn cael eu hystyried yn y broses gychwynnol o ddynodi, nid ydynt yn rhan o'r fframwaith deddfwriaethol wedi hynny. Er i'r ardaloedd hyn gael eu dynodi yn y lle cyntaf oherwydd ansawdd eu tirwedd ac, yn achos Parciau Cenedlaethol, oherwydd eu bod yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, cytunwyd eu bod yn bwysig hefyd oherwydd yr amrywiaeth eang o nodweddion eraill sydd ganddynt, megis byd natur, cyflenwad dŵr, bwyd a charbon, ac y dylid ystyried y nodweddion ehangach hynny yn yr oes sydd ohoni.

Mae angen deddfwriaeth newydd i ddatblygu rhai agweddau o'r Cynnig, gan gynnwys gwneud newidiadau i gydnabod cryfderau arbennig y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE fel rhan mwy ffurfiol o'r broses o reoli adnoddau naturiol. Dylid gwneud rhagor o waith i ddatblygu manylion penodol y cynigion o ran:

- a) rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn sail ar gyfer swyddogaethau statudol;
- b) cryfderau arbennig i adlewyrchu dealltwriaeth eang o bwysigrwydd y meysydd hyn â'u hecosystemau a bod mwy o bwylais yn cael ei roi iddynt wrth wneud penderfyniadau;
- c) galluogi trefniadau llywodraethu i ddatblygu i adlewyrchu amgylchiadau lleol;
- ch) cymunedau'n gallu cyflwyno cynigion i ardaloedd newydd gael eu cydnabod am eu cryfderau arbennig.

Yn y cyfamser, mae lle i sefydlu perthynas well rhwng y tirweddau dynodedig a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gydweithredu â chorff neu bartneriaeth arweiniol y tirweddau dynodedig i edrych ar y potensial i gynnwys y Datganiad Ardal yng Nghynllun Rheoli statudol yr ardal. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ystyried y potensial i ddefnyddio'i



bwerau i arloesi ac i arbrofi er mwyn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio y tu mewn a'r tu allan i'r tirweddau dynodedig presennol, a allai fod yn ffyrdd gwell o gynnal cydnerthedd ecosystemau ac o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Bydd hynny'n fodd i feithrin dealltwriaeth o'r newydd o'r hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi, a hefyd eu dealltwriaeth o'r hyn a olygir wrth ddefnydd cynaliadwy. Dylai clymu hynny'n ffurfiol wrth ddiben diwygiedig fod yn flaenoriaeth ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, ond yn y cyfamser, gellid gwneud hynny mewn Datganiadau Ardal.

#### **4 GWEITHIO Y TU HWNT I FFINIAU**

##### **Newid ymddygiadol a sefydliadol**

Nododd Comisiwn Williams<sup>1</sup> pa mor bwysig fyddai hi i newid ymddygiad yn yr hirdymor cyn y gellid newid y diwylliant ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth newydd ar gyfer tirweddau dynodedig, bydd yn rhaid mabwysiadu'n llawn y ffyrdd newydd o weithio a ddatblygwyd drwy raglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru. Roedd y ffyrdd hynny'n pwysleisio'r gwerth sydd i berthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a chydweithrediad go iawn, lle mae'r partneriaid yn perchenogi'r broblem a hefyd yr ateb. Bydd hierachiaethau traddodiadol yn cael eu newid ar sail cyfres o gredoau cyffredin. Mae'r credoau hynny'n parchu ac yn cryfhau'r berthynas rhwng pobl a lleoedd ac yn arwain, yn eu tro, at well canlyniadau ar y cyd:

- ▶ Mae llesiant a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol a diwylliannol yn rhan annatod o bob canlyniad,
- ▶ Caiff ymdeimlad o le a chydnerthedd cymunedau eu cryfhau drwy ymdrin â pholisïau a gweithredu mewn modd integredig,
- ▶ Mae ffyrdd o weithio sy'n parchu ac yn cryfhau'r berthynas rhwng pobl a lleoedd yn arwain at well canlyniadau,
- ▶ Mae atebolrwydd lleol a chenedlaethol dros y tirweddau dynodedig yn cryfhau'r ymdeimlad o berchenogaeth arnynt a'r ffordd y maent yn cael eu rheoli,
- ▶ Mae eglurder o ran dibenion y tirweddau dynodedig yn llywio canlyniadau,
- ▶ Mae pennu cyrff neu bartneriaethau i reoli'r tirweddau dynodedig yn golygu bod modd cydgysylltu'r gwaith, ac mae hefyd yn sicrhau atebolrwydd,
- ▶ Mae cynnwys pobl, ennyn eu diddordeb ac ymwneud â nhw, yn fodd i lywio blaenoriaethau, i ddatblygu dyheadau ac i wella dealltwriaeth,
- ▶ Mae cyfeirio at werth cynhenid tirweddau dynodedig yn hyrwyddo gwerthfawrogiad hirdymor o'u gwerth,

---

<sup>1</sup> Williams ac eraill, *Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*, Llywodraeth Cymru, 2014,

- ▶ Mae nodweddion arbennig a gwerthoedd diwylliannol yn unigryw ac nid oes dim a all gymryd eu lle, felly dylid eu rheoli er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r gwerthoedd hyn yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er na all diwygio strwythurau sefydliadol fod yn fodd ynddo'i hun i newid ymddygiad, mae'n rhaid ystyried y berthynas rhwng y ddau. Mae nodweddion system yn cefnogi ymddygiadau penodol.

### **Gweithio y tu hwnt i ffiniau**

Mae dyletswydd ar gyrff sy'n rheoli tirweddau dynodedig Cymru i ymateb i anghenion cyfoes, ac ymhlith y cyfleoedd y gallant eu cynnig y mae:

- Darparu buddion ehangach o ran llesiant o fewn eu ffiniau
- Cynorthwyo partneriaethau eraill ledled Cymru sy'n rheoli tirweddau i ddatgloi potensial llawn eu tirweddau o ran llesiant
- Gweithredu'n rhanbarthol gyda'i gilydd a chydag amryfal bartneriaid i gyflawni nodau cyffredin

Bu rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru yn ystyried sut i ddatblygu hyn ac i wella'r gallu i gyflawni'r dyletswyddau sy'n rhan o agenda Cenedlaethau'r Dyfodol, a daeth i'r casgliad ei bod yn bosibl mai'r dull gweithredu mwyaf blaengar fyddai gweithredu ar sail hybiau. O dan y dull hwnnw, byddai timau'r tirweddau dynodedig yn cefnogi ardaloedd eraill yng Nghymru sydd â llai o allu, er mwyn iddynt fedru elwa ar y lefel o ddealltwriaeth, yr arbenigedd a'r hanes o gyflawni sydd gan y tirweddau dynodedig. Gall hynny olygu y bydd angen trefniadau gweithredol agosach, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, rhwng yr ardaloedd dynodedig presennol, ond hefyd rhwng y tirweddau dynodedig a'r ardaloedd nad ydynt wedi'u dynodi'n statudol. Roedd awydd amlwg i archwilio mwy ar y cysyniad a'r opsiynau ar gyfer darparu'r model hwn.

## **5 EGWYDDORION LLYWODRAETHU NEWYDD**

Er mwyn darparu fframwaith lle gellir ystyried y trefniadau llywodraethu ar gyfer tirwedd ddynodedig, cytunwyd ar gyfres o egwyddorion llywodraethu da.

Mae'r egwyddorion hyn wedi eu gosod o fewn cyd-destun rhyngwladol sy'n seiliedig ar Egwyddorion yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) ar gyfer Llywodraethu Effeithiol<sup>2</sup> ac ar 'Good Democratic Governance on a Local Level on the European Landscape Convention Accountability'. Maent hefyd yn adlewyrchu'r dimensiwn Cymreig, sef yr egwyddorion yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, a'r nodau a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

---

<sup>2</sup> Adroddiad ar Lywodraethu Ardaloedd Gwarchoddedig, IUCN, 2013

Mae egwyddorion llywodraethu da yn ymwneud â phum prif faes:

- Dilysrwydd, cyfranogiad a llais
- Datblygu a gweithredu gweledigaeth strategol ar gyfer yr ardal
- Rheoli perfformiad yn effeithiol
- Atebolrwydd a thryloywder
- Tegwch a hawliau

Tabl 1: Crynodeb o Egwyddorion Llywodraethu da ar gyfer tirweddau dynodedig

Dilysrwydd, cyfranogiad a llais	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael eu derbyn mewn cymdeithas</li> <li>• Cynrychiolaeth a chyfranogiad</li> <li>• Trafod yn eang a chreu consensws</li> <li>• Sybsidiaredd</li> </ul>
Datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer yr ardal a rhoi'r weledigaeth honno ar waith	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweledigaeth ysbrydoledig a chyson</li> <li>• Yn gyson â chanlyniadau cenedlaethol</li> <li>• Yn adlewyrchu rhwymedigaethau</li> <li>• Bod yn barod i addasu wrth reoli ac arloesi</li> </ul>
Rheoli perfformiad yn effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Effeithiolrwydd y rheoli</li> <li>• Diwylliant o ddysgu, meithrin sgiliau a gwybodaeth</li> <li>• Eirioli ac allgymorth</li> <li>• Cydnabod gwendid neu berfformiad gwael a mynd i'r afael â nhw</li> <li>• Defnyddio adnoddau ariannol yn effeithlon</li> </ul>
Atebolrwydd a thryloywder	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Uniondeb ac ymrwymiad</li> <li>• Gwneud penderfyniadau ac adrodd</li> <li>• Dyrannu adnoddau</li> <li>• Cyfathrebu</li> </ul>
Tegwch a hawliau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwneud penderfyniadau mewn ffordd foesol a theg</li> <li>• Diduedd a heb ragfarn</li> <li>• Parchu iaith a diwylliant</li> <li>• Parchu hawliau</li> <li>• Ymgysylltu gweithredol</li> </ul>

Dylid defnyddio'r Egwyddorion hyn i asesu unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae tirweddau dynodedig sy'n bodoli eisoes yn cael eu llywodraethu, a dylid eu defnyddio hefyd wrth lywodraethu ardaloedd newydd lle mae cynigion i ddynodi eu tirwedd.

Mae angen i'r tirweddau dynodedig weithio mewn partneriaeth agos gyda llawer o sectorau, gan gynnwys busnesau, cyrff yn y trydydd sector, a'r byd academaidd. Mae'r potensial i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gryfhau gan fodolaeth corff neu bartneriaeth benodedig. Mae hynny'n golygu bod y tirweddau dynodedig yn fwy na 'llynellau ar fap'. Rhaid i gorff neu bartneriaeth benodedig ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gydgyssylltu gweithgareddau yn yr ardal, a dylent gael eu dwyn i gyfrif yn lleol ac yn genedlaethol wrth iddynt wneud hynny.

Drwy barchu'r egwyddorion llywodraethu a thrwy fabwysiadu model atebolrwydd cadarn, dylai fod modd newid o sefyllfa lle mabwysiedir yr un model ar gyfer pawb i amrywiaeth mwy eang o fodolau cyflenwi lleol, gan gynnwys partneriaethau a rhannu neu ddirprwyo cyfrifoldebau. Dylai'r amrywiaeth o offer a phwerau sydd gan gorff arweiniol hefyd adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion lleol.

Bu Tirweddau'r Dyfodol Cymru yn ystyried yr ystod eang o fodolau llywodraethu sy'n bodoli ar gyfer tirweddau dynodedig ac ar gyfer sefydliadau sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol, gan bwysu a mesur y modelau hynny yn ôl eu gallu i fodloni ac i gyflawni'r Egwyddorion. Canfuwyd bod y strwythurau sy'n bodoli yng Nghymru yn arddel llawer o'r egwyddorion, a'u bod yn sylfaen dda ar gyfer archwilio ffyrdd arloesol a gwell o adlewyrchu anghenion lleol o ran rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Roeddent hefyd yn ddigon cyson i lywio a dylanwadu ar bolisi cenedlaethol yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r potensial hwnnw'n llawn, bydd yn rhaid wrth bartneriaethau ac ymddygiad agored a chydweithredol, ynghyd â'r gallu i ddatblygu modelau newydd a diddordeb gwirioneddol mewn gwneud hynny. Bydd yn rhaid mentro hefyd.

Mae sicrhau bod llywodraethu yn addas i'r diben yn awgrymu y byddai'n ddymunol pennu pwyntiau adolygu ffurfiol ar gyfer modelau llywodraethu sy'n bodoli eisoes ac ar gyfer rhai newydd. Dylai adolygiadau o'r fath rymuso ardaloedd i gynnig trefniadau newydd a fyddai'n eu galluogi i esblygu i adlewyrchu anghenion a chyfleoedd wrth iddynt newid.

Mae'r awydd i adolygu trefniadau goruchwylio cenedlaethol yn parhau, yn enwedig o ran archwilio'r ffordd fwyaf effeithlon o gynllunio sut i rannu adnoddau ac i gydweithio'n effeithiol. Dylid gwneud mwy o waith ar ddatblygu dull gweithio sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng y lleol a'r cenedlaethol er mwyn llunio dull gweithio hyblyg sy'n seiliedig ar le, ac a bennir yn lleol, o fewn y cyfeiriad ehangach y cytunwyd arno. Mae aelodaeth Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n cynrychioli'r holl alwadau a'r dyheadau yn y tirweddau dynodedig. Yn y tymor byr, dylai barhau i gyfarfod er mwyn goruchwylio'r gweithredu, a gallai esblygu'n bartneriaeth genedlaethol â swyddogaeth ffurfiol o ran goruchwylio tirweddau dynodedig.

## **6 GWELLA PERFFORMIAD AC ATEBOLRWYDD**

Mae angen parhau i fesur allbwn a chanlyniadau, ac i werthuso effaith, os ydym am wella perfformiad, ac mae hynny o ddiddordeb i'r cyfryngau ac i'r cyhoedd o safbwynt dal y

llywodraeth a sefydliadau i gyfrif. Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn gwerthfawrogi'r tirweddau dynodedig. Maent yn dylanwadu ar fywydau pobl neu'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac yn gweinyddu ac yn buddsoddi arian cyhoeddus. Mae mabwysiadu dull cadarn a chymesur o fesur perfformiad ac atebolrwydd y corff rheoli yn angenrheidiol ac yn rhywbeth i'w ganmol.

Er mwyn gwerthuso perfformiad ac atebolrwydd, mae gofyn mesur ac adrodd yn wrthrychol ar weithgareddau er mwyn gweld a lwyddwyd i sicrhau'r canlyniad a fwriedid, a rhaid edrych hefyd ar y canlyniad a gafwyd mewn gwirionedd. Mae'r hyn sy'n bodoli yn yr AHNE a'r Parciau Cenedlaethol ar hyn o bryd wedi datblygu dros amser mewn ymateb i ofynion statudol newydd, wrth i'r arferion da diweddaraf gael eu mabwysiadu'n genedlaethol neu'n lleol, ac mewn ymateb i alwadau cyrff ariannu neu achredu sydd, weithiau, yn anghyson â'i gilydd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r pwyslais wedi symud o fesur allbwn i fesur canlyniadau ac mae hynny'n golygu bod y dasg yn fwy cymhleth, a hynny mewn ffordd anghymesur efallai neu mewn ffordd sydd y tu hwnt i allu'r cyrff tirwedd unigol. Dyhead Tirweddau'r Dyfodol Cymru yw dull gweithio sydd wedi'i deilwra i'r tirweddau dynodedig, sy'n cynnig cysondeb ar draws yr holl ddynodiadau, ond sy'n ddigon hyblyg i gael ei deilwra i faint a statws sefydliad neu bartneriaeth reoli, a'i fabwysiadu gan ardaloedd newydd.

Dylid mynd ati ar unwaith i ddatblygu dull cymesur a chyson, sydd hefyd yn un yhyblyg ac integredig, o gynllunio ac adrodd ar berfformiad, ac sy'n cyflawni'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac y gellir ei fabwysiadu yn lle'r gofynion adrodd statudol eraill, neu ei ddefnyddio i'w hategu. Dylai'r dull gweithredu hwn gael ei fabwysiadu wedyn gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Phartneriaethau'r AHNE a'i fabwysiadu gan unrhyw dirweddau dynodedig yn y dyfodol.

Mae hwn yn gyfle unigryw i integreiddio ac i symleiddio a, thrwy hynny, i roi mwy o dryloywder i randdeiliaid. Y nod yw:

- sicrhau mwy o gysondeb yn yr amrywiaeth o dargedau a dangosyddion, ac o ran sut yr ymdrinnir â nhw;
- sefydlu trefn sy'n hwyluso cydweithio ac sy'n golygu bod modd rhannu arferion da;
- cryfhau goruchwyliaeth a'r modd y creffir ar gyflawniad ac effaith.

## **7 ARLOESI O RAN ADNODDAU**

Nid yw arian cyhoeddus ynddo'i hun byth yn debygol o'n galluogi i achub ar yr holl gyfleoedd a gynigir gan ein tirweddau. Bydd angen partneriaethau ehangach a modelau cyllido arloesol a fydd yn gallu denu adnoddau newydd yn ogystal â dylanwadu ar fuddsoddiad gan eraill.

Mae rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru wedi nodi cyfleoedd gwahanol i ddarparu adnoddau ar gyfer y tirweddau dynodedig. Gellir eu rhannu'n fras i bedwar categori:

- Dylanwadu ar yr adnoddau a'r buddsoddiadau sydd eisoes ar waith mewn ardal

- Denu adnoddau i gefnogi gweithgareddau uniongyrchol corff cyflenwi
- Denu adnoddau ar gyfer prosiectau penodol
- Sicrhau arian cyhoeddus ar gyfer gwaith llywodraethu craidd corff cyflenwi.

## Dylanwadu

Os yw cyrff cyhoeddus ac ymgwymerwyr statudol yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar dir mewn AHNE neu Barc Cenedlaethol, mae dyletswydd arnynt eisoes i ystyried y diben y mae'r ardal wedi'i dynodi ar ei gyfer. Galwyd dro ar ôl tro yn ystod yr adolygiad hwn ac yn ystod adolygiadau blaenorol i gryfhau dyletswydd o'r fath; o ran ei gwneud yn ofynnol i gyrrff o'r fath hyrwyddo'r diben neu i adrodd ar y camau cadarnhaol y maen nhw wedi'u cymryd. Hanfod galwadau o'r fath yw'r gydnabyddiaeth bod angen ymateb a chydweithio'n eang i gyflawni dibenion a gwreiddu potensial y tirweddau dynodedig.

Mae Tirweddau'r Dyfodol Cymru yn cydnabod y potensial i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Phartneriaethau'r AHNE ddod â rhanddeiliaid ynghyd ac i ddylanwadu arnynt, a dylent gryfhau'r agwedd hon ar eu gwaith.

Dylai priodoldeb y ddyletswydd ar gyrrff penodol i roi sylw i ddibenion dynodiad statudol fod o fewn cwmpas deddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei chyflwyno yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae'n drefn deddfwriaethol hanesyddol y bwriedir iddi ddiogelu nodweddion arbennig ardal, ac mae ganddi'r potensial i symbylu rhagor o gydweithredu. Mae'r ffaith ei bod yn cael ei hystyried y 'wan' yn hynny o beth yn awgrymu y dylid mynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol i ymgysylltu ac i gydweithio, ac y dylid cynnwys mwy o gyrrff na'r nifer cyfyngedig sy'n dod o fewn cwmpas y statud hon. Gallai meithrin ymddiriedaeth a pherthynas ag eraill fod yn ffordd fwy effeithiol o sicrhau dull mwy cydweithredol o weithio i gefnogi nodweddion arbennig ardal na dibynnu ar gydymffurfio ac ar ddyletswydd i 'roi sylw'. Yn y naill achos a'r llall, bydd gofyn i bartion ddeall a gwerthfawrogi'r dyhead ar gyfer ardal a'r effeithiau y gallan nhw eu cael a'r cyfraniad y gallant ei wneud. Gall y cyrrff sy'n gyfrifol am y tirweddau dynodedig chwarae rhan hanfodol mewn hwyluso'r cydymdrechion sydd eu hangen i reoli'r tirweddau. Mae hynny'n cynnwys y cyrrff sy'n dod o dan y ddyletswydd 'i roi sylw', ond mae hefyd yn cynnwys cyrrff eraill.

Mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a pherchnogion a rheolwyr tir unigol yn mynd ati drwy'r amser i wneud penderfyniadau buddsoddi sy'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar reolaeth gynaliadwy ar yr adnoddau naturiol mewn ardal. Dylai bodolaeth corff arweiniol neu bartneriaeth mewn ardal olygu y dylai fod modd dylanwadu ar benderfyniadau o'r fath neu eu hysgogi mewn ffordd gadarnhaol.

Roedd galluogi cymunedau i lywio'r defnydd o dir mewn ffyrdd a oedd yn parchu traddodiadau lleol a'r ymdeimlad o le yn cael ei gefnogi drwy gydol rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru. Nodwyd bod cymhellion i reoli tir mewn modd cadarnhaol ac i gydweithio, yn allweddol er mwyn i adnoddau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector gael eu defnyddio i sicrhau bod y tirweddau hyn mor gydnerth â phosibl ac yn dod â budd i bawb.

## Denu

Ledled y byd, mae modelau darparu adnoddau ar gyfer tirweddau sy'n bwysig yn genedlaethol yn canolbwyntio ar fynd ati mewn modd effeithiol i hwyluso rheolaeth ar adnoddau naturiol a chydweithredu ar raddfa'r dirwedd.

Dylid mynd ar drywydd cyfleoedd i arallgyfeirio'r sylfaen gyllido. Mae rhai ffynonellau'n gofyn am gryn dipyn o fewnbwn o ran amser staff a all arwain at gynigion aflwyddiannus neu at sicrhau symiau cymharol fach o arian yn unig, felly dylai tirweddau dynodedig fynd ati mewn ffordd fwy strategol a chydweithredol i baratoi cynigion. Gall rhai cynlluniau gynnig buddion neu fanteision cymunedol neu economaidd mwy eang ac mae'n rhaid cydnabod y risgiau a'r enillion ar y buddsoddiad hwnnw.

Mae angen i dirweddau dynodedig ddatblygu neu gael gafael ar y sgiliau sydd eu hangen er mwyn arallgyfeirio'r modd y maent yn ariannu rheolaeth gynaliadwy ar yr adnoddau naturiol yn eu hardaloedd. Dylid archwilio a manteisio ar gyfleoedd di-dâl sydd ar gael yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae enghreifftiau da eisoes o arloesi ac arallgyfeirio wrth ariannu Parciau Cenedlaethol Cymru ac AHNE. Dylid manteisio ar fwy o gyfleoedd i rannu'r arferion da hyn, gan wella effeithlonrwydd ar yr un pryd. Dylid sefydlu ffyrdd o weithio sy'n annog sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gydweithio pan fo ganddynt weledigaeth a diben cyffredin. O gyfuno adnoddau, gellir ysgogi mwy o effaith ac incwm nag y gellid eu sicrhau pan fo sefydliadau unigol yn bwrw ymlaen â'u hamcanion penodol a gwahanol eu hunain.

### **Cael Gafael ar Gyllid Craidd**

O ran adnoddau, mae gan y rhan fwyaf o dirweddau dynodedig y byd gorff neu bartneriaeth arweiniol sy'n cael arian cyhoeddus i wneud ei gwaith llywodraethu ac mae'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio hefyd i hwyluso gwaith ar lawr gwlad. Mae gan faint a chymhlethdod strwythurau llywodraethu oblygiadau amlwg o ran ariannu. Dylid mynd ar drywydd effeithlonrwydd, ochr yn ochr â llywodraethu effeithiol.

O ran y model cyfredol yng Nghymru, mae gwahaniaeth clir rhwng y grant refeniw craidd y mae llywodraeth Cymru yn ei roi i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar gyfer eu gweithgareddau, a'r cyllid ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sy'n dod yn bennaf oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau cyhoeddus y mae'r ardaloedd hynny'n rhan ohonynt. Yn y naill achos a'r llall, mae lefelau'r cyllid yn amrywio'n fawr rhwng yr wyth tirwedd ddynodedig, ac mae'n bosibl nad oes fawr o berthynas rhwng lefel y cyllid a maint yr ardaloedd a'r pwysau sydd arnynt.

Dylid edrych ar sut i fynd ati yn yr hirdymor i ddarparu adnoddau ar gyfer y cyrff a'r partneriaethau sy'n gyfrifol am y tirweddau dynodedig.

## **8 HYBU LLESIANT A GWYDNWCH**

Y tirweddau dynodedig ddylai hybu'r gwaith o reoli'r adnoddau naturiol yn eu hardaloedd mewn modd cynaliadwy, gan wneud hynny o fewn y fframwaith a osodwyd gan ddeddfwriaeth Cymru.

Mae rhinweddau arbennig y tirweddau dynodedig yn mynd ymhellach na'u gwerth gweledol a'u gwerth fel amwynderau ac maent yn cynnwys eu swyddogaeth hollbwysig fel lleoliadau sy'n rhoi manteision ehangach i'r cyhoedd ac yn breifat o fewn eu hardal a thu hwnt i hynny,

Mae creu ecosystemau cydnerth y tu mewn a hefyd y tu allan i'r tirweddau dynodedig yn gryn her. Ond gall adfer yr ecosystemau hynny olygu bod modd rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a fydd yn esgor ar fanteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn nodi nad yw unrhyw ecosystem yng Ngymru yn cynnwys priodoleddau angenrheidiol o wydnwch, gan gynnwys y rhai yn ein tirweddau dynodedig. Blaenoriaeth ar gyfer tirweddau dynodedig yw i weithredu ar y canfyddiadau hyn ac i sicrhau bod y rheolaeth a defnydd adnoddau naturiol yn canolbwyntio ar gynnal a gwella statws eu priodoleddau – cysylltedd, cyflwr, maint / graddau ac amrywiaeth. Mae angen rhagor o weithredu felly ar dirweddau dynodedig i fynd i'r afael â bioamrywiaeth er mwyn cynnal a gwella gwydnwch yr ecosystem.

Mae angen i sefydliadau rheoli tirweddau dynodedig ddatblygu a mireinio mwy ar eu dealltwriaeth eu hunain o gydnerthedd economaidd a chyfleoedd economaidd lleol, a pharhau i gydweithio ag asiantaethau datblygu economaidd eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol. Dylent ddefnyddio'r pŵer sydd ganddynt i ddod â chyrrff, busnesau a grwpiau lleol ynghyd i gefnogi ac i greu cyfleoedd gwaith. Mae posibilïadau yma i sicrhau manteision economaidd ac amgylcheddol os oes amcanion ar y cyd yn cael eu pennu ochr yn ochr o'r cychwyn cyntaf.

Mae gan y cyrrff hyn gyfle penodol i osod esiampï i eraill o ran 'twf gwyrdd', ac i'w hyrwyddo fel ffordd o feithrin twf a datblygiad economaidd sy'n deg yn gymdeithasol ac sy'n sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Dylai'r cyrrff sy'n gyfrifol am y tirweddau dynodedig fynd ati gyda'i gilydd i hyrwyddo gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ein holl dirweddau ac i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy arnynt, gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaethau lleol.

Er mwyn cyrraedd y nod yn hynny o beth, mae angen i gymunedau gael eu hysbrydoli, eu grymuso, a'u cefnogi i:

- Ddatblygu eu gweledigaeth a'u nodau hirdymor eu hunain ar gyfer y dyfodol, y gellir eu hymgorffori yng nghynlluniau a gweithgareddau Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r corff neu'r bartneriaeth arweiniol mewn ardal ddynodedig
- Cydweithio ledled y gymuned a chyda phob rhanddeiliad i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i greu ffyniant a gwaith
- Cynnwys pob rhan o'r gymuned mewn dull integredig o weithredu sy'n canolbwyntio ar anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymuned a dychwelyd iddi
- Cynnal a gwella adnoddau naturiol a chydnerthedd ecosystemau oherwydd y manteision y maent yn eu cynnig o ran llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, ac oherwydd eu gwerth cynhenid
- Helpu i ddiffinio sut y bydd llwyddiant yn cael ei gydnabod a'i fesur.



Mae nifer o gyfleoedd penodol wedi'u nodi i gynorthwyo cymunedau a sefydliadau sy'n rheoli tirweddau dynodedig â'r dasg hon.

Mae'n bosibl y gallai dull o weithredu sy'n seiliedig ar 'gynllunio lleoedd' fod yn fodd i ddiwallu'r angen am gydweithredu arloesol sy'n seiliedig ar le, ac sy'n mynd i'r afael â heriau economaidd ac amgylcheddol. Mae'r cysyniad o gynllunio lleoedd yn cydnabod bod adnoddau ac anghenion yn amrywio o un ardal i'r llall. Gall gweithio ar sail cynlluniau lleoedd newid diwylliant, gan alluogi datblygiadau priodol sy'n cefnogi'r amcanion llesiant cenedlaethol, lleol a chymunedol. Y syniad yw grymuso cymunedau i gael mwy o ddylanwad dros safleoedd datblygu, dros y nodweddion unigryw sydd ganddynt yn lleol, syniadau newydd ar gyfer yr economi werdd, a seilwaith cymunedol. Dull gweithio a arweinir gan y gymuned fydd hwn a fydd yn cael ei nodweddu gan fwy o gydweithredu rhwng awdurdodau a chymunedau, gwell dealltwriaeth o anghenion cymunedau, a chyflenwi mewn ffordd ymatebol.

Mae dull o'r fath yn cyd-fynd â'r fframweithiau presennol a'r fframweithiau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Rheoli tirweddau dynodedig a Datganiadau Ardal, ac mae'n gyfle i lywio ac i ddylanwadu ar eu cynnwys, gan arwain at gynlluniau ar raddfa lle cyfan.

Drwy edrych ar brif elfennau'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i hyrwyddo twf gwyrdd yng Nghymru, nodwyd bod angen integreiddio polisiâu'n well a meithrin mwy o ddealltwriaeth o sut y gall tirweddau dynodedig chwarae rhan gadarnhaol yn yr agenda hon, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Annog prosiectau Twf Gwyrdd drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)
- Datblygu cynlluniau rheoli tir sy'n gynaliadwy ac sy'n cael eu teilwra ar gyfer ardal er mwyn cymryd lle neu ategu'r taliadau amaeth-amgylcheddol presennol, gan gynnwys gweithio gyda chlystyrau o reolwyr tir
- Manteisio i'r eithaf ar y brand tirwedd ddynodedig / Parc Cenedlaethol / AHNE er mwyn rhoi delwedd gadarnhaol o Gymru i'r byd, a denu mewnfuddsoddiad a thwristiaeth
- Rhannu'r arferion gorau sy'n bodoli eisoes, megis datblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol a chynlluniau ynni adnewyddadwy yn y gymuned

Mae gan gymhellion i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy gan gynnwys Talu am Wasanaethau Ecosystemau (PES) y potensial i gynnig cyfleoedd economaidd lleol i reolwyr tir, a chyfleoedd hefyd i gymunedau elwa ar waith sy'n cynnal ac yn gwella cyfalaf naturiol, megis dal a storio carbon neu storio dŵr yr ucheldir. Mae cyfleoedd hefyd i ddarparu brynwyr gyflawni amryfal amcanion strategol a gweithredol drwy fuddsoddi ynddynt.

Mae tirweddau dynodedig Cymru yn darparu amrywiaeth gymhleth o wasanaethau ecosystemau. Gellid ystyried bwndelu'r gwasanaethau hyn gyda'i gilydd ar gyfer y rheini sy'n buddsoddi mewn cyfalaf naturiol. Mae'n bosibl y bydd angen fframwaith rheoleiddiol newydd ac arian cyhoeddus i ysgogi'r buddsoddiadau hyn, a bydd hefyd angen broceriaid. Mae'r sefydliadau a'r partneriaethau sy'n rheoli tirweddau dynodedig mewn sefyllfa dda i gynnig dealltwriaeth lefel uchel o'r ecosystemau a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu'n lleol – ddealltwriaeth a fydd yn llywio buddsoddiad priodol. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau da â'r rheolwyr tir a'r cymunedau a allai elwa ar fuddsoddiad o'r fath.

Gallai fod gwerth mewn datblygu cynlluniau cynaliadwy, penodol i le, ar gyfer rheoli tir, a'r cynlluniau hynny'n rhai a fydd wedi'u teilwra i gefnogi anghenion lleol ac i ymdrin â nodweddion arbennig tirwedd ddynodedig. Mae Trefniadau Pontio'r UE yn rhoi cyfle inni ystyried hynny. Bydd angen i unrhyw gynllun newydd esgor ar nifer o ganlyniadau, bydd angen iddo gael ei ystyried yn fuddsoddiad yn hytrach nag yn gymhorthdal, a bydd gofyn iddo hefyd feithrin dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o'r manteision sy'n deillio o adfer ecosystemau a'u gwneud yn fwy cydnerth. Y dymuniad yw cyflwyno hyblygrwydd sy'n ein galluogi i fynd i'r afael ag anghenion blaenoriaethol ecosystemau a budd cyhoeddus mewn ardal.

Gall cymunedau a'r amgylchedd naturiol gael mwy o fudd o dwristiaeth gynaliadwy drwy ddefnyddio tirweddau dynodedig. Dylid mynd ati i gysylltu â darparwyr twristiaeth er mwyn gweld sut y gallant gyfrannu at y gwaith o gynnal yr asedau naturiol y mae eu busnesau'n dibynnu arnynt, gan gynnwys defnyddio mentrau megis:

- Prentisiaethau gwyrdd
- Cynlluniau rhodd ymwelwyr
- Twristiaeth antur
- Cyfrannu at seilwaith gwyrdd bioamrywiol (e.e. llwybrau beicio a llwybrau ceffylau)
- Digwyddiadau hyrwyddo

Gall datblygu marchnadoedd arbenigol amgen drwy ennill a chefnogi statws Geoparc Byd-eang UNESCO, Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, Gwarchodfa Biosffer UNESCO neu statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol, helpu o ran manteisio i'r eithaf ar dwristiaeth werdd a threftadaeth. Dylid harneisio'r ffaith bod pwysigrwydd rhyngwladol a nodweddion tirwedd Cymru yn cael eu cydnabod drwy'r dyfarniadau hyn, a hynny er mwyn sicrhau'r manteision economaidd ac addysgol mwyaf posibl i gymunedau. Mae cyfle i gryfhau'r cydweithredu rhwng yr ardaloedd hyn a'r tirweddau dynodedig, gan gydnabod bod eu dibenion yn ategu ei gilydd.

Mae gan sefydliadau sy'n rheoli tirweddau dynodedig y potensial i hwyluso mwy ar y cysylltiadau rhwng busnesau lleol, awdurdodau lleol, Croeso Cymru a grwpiau o'r trydydd sector y tu mewn a'r tu allan i'r ffiniau er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r galw a'r potensial i ddatblygu.

## **AWYDD I NEWID**

### **9 Y BLAENORIAETHAU O RAN GWEITHREDU**

Nod y Cynnig a amlinellir yn yr adroddiad hwn yw hoelio sylw at yr uchelgais i greu dull cydweithredol a dynamig o weithredu mewn perthynas â thirweddau dynodedig a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar raddfa'r dirwedd. Er mwyn gwireddu'r Cynnig hwnnw'n llawn, bydd yn rhaid wrth gyfraniad nifer o randdeiliaid a phartneriaid a fydd yn gallu

gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd hyblyg, gan wneud hynny nid yn unig mewn ffordd wedi'i chynllunio, ond gan fynd ati hefyd i nodi cyfleoedd i anelu'n uwch, ac ymateb iddynt.

Nod y Blaenoriaethau o ran Gweithredu yn yr adroddiad hwn yw amlinellu'r gweithgareddau y mae'r Grŵp wedi nodi eu bod yn angenrheidiol er mwyn cychwyn ar y daith hon. Bydd y blaenoriaethau'n newid wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg neu wrth i brosiectau lwyddo neu fethu. Ni fydd y gwaith o gyflawni'r uchelgais yn syml nac yn hawdd, ac mae'n debyg mai ychydig yn unig o gynnydd, neu gynnydd mewn enw yn unig, a fydd yn cael ei wneud, ar y gorau, o geisio crynhoi, mewn cynllun haearnidd, y gwaith o fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol a chymdeithasol cymhleth sy'n wynebu'r tirweddau dynodedig. Prosiect bach hyfryd yn y man hwn, astudiaeth achos yn amlinellu arferion gorau yn y man acw, ond ecosystemau cydnerth yn parhau y tu hwnt i'n cyrraedd.

Er mwyn gweithredu, bydd angen i'r holl bartneriaid dderbyn bod yn rhaid iddynt ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr hyn y byddant yn ei wneud, a'i berchenogi. Mae pob partner yn cyfrannu gwybodaeth hanfodol, profiad, a mynediad at adnoddau yn eu hystyr ehangach. Nid yw'r ateb gan un corff unigol. Drwy Dirweddau'r Dyfodol Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio pwysleisio hynny, gan fabwysiadu dull gweithredu sydd wedi grymuso'r holl bartneriaid i berchenogi'r agenda hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn eistedd o amgylch y bwrdd ar yr un lefel â chyrff eraill ac nid yw wedi cymryd mai hi yw'r ceffyl blaen. Mae hynny wedi herio confensiwn, ac mae hefyd wedi bod yn her i lawer ar y lefel ymarferol.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer Cymru yn un uchelgeisiol ac ifanc iawn. Bydd partneriaid y tirweddau dynodedig yn edrych yn fanwl ar ei botensial i greu'r 'Gymru a garem', ac yn mynd ati i ddysgu beth sy'n gweithio.

Mae Tirweddau'r Dyfodol Cymru o'r farn mai dyma'r camau cyntaf sy'n hanfodol er mwyn gwireddu'r Cynnig:

Cyflawni dros Gymru	
Cydweithio a Phartneriaeth	
Dechrau yn awr	Dechrau ymhen 18 mis
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu'r grŵp cyflawni i fonitro'r broses o gyflawni camau Tirweddau'r Dyfodol Cymru</li> <li>Pawb sy'n cymeryd ran yn Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru i fabwysiadu'r ffordd o weithio a ddatblygwyd, sy'n rhoi pwyslais ar feithrin perthynas ag eraill er mwyn cydweithio'n effeithiol.</li> <li>Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Edrych ar y ffordd fwyaf effeithlon o gynllunio sut i rannu adnoddau ac i gydweithio'n effeithlon ar gyflawni.</li> <li>Y tirweddau dynodedig i dreialu a datblygu canllawiau ar gyfer y cysyniad o weithio ar sail hybiau er mwyn gweithio y tu allan i ffiniau sy'n bodoli eisoes.</li> <li>Cytuno ar ffordd o fynd ati i fonitro newid a thueddiadau er mwyn dangos yr</li> </ul>

<p>Cymru a phob tirwedd dynodedig i roi cymorth a chefnogaeth i bartneriaethau eraill ledled Cymru sy'n rheoli tirweddau er mwyn datgloi potensial llawn eu tirweddau o ran llesiant.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y grŵp cyflawni i ddatblygu cynllun cyfathrebu a phroffil ar gyfer Tirweddau'r Dyfodol Cymru sy'n cynnwys y cyhoedd yn swyddogaethau a blaenoriaethau'r meysydd hyn.</li> </ul>	<p>effaith a gafwyd, gan fonitro ar sail dangosyddion sy'n ymwneud â'r nodau llesiant a chydnerthedd ecosystemau lleol.</p>
<p>Gweledigaeth a Chyfeiriad</p>	
<p>Dechrau yn awr</p>	<p>Dechrau ymhen 18 mis</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelodau neu Fyrddau yr holl bartneriaid i fabwysiadu'r weledigaeth - a chysylltu â staff, Aelodau a phartneriaid a'i chynnwys mewn cyhoeddiadau perthnasol.</li> <li>• Llywodraeth Cymru, wrth gydwetihio â phartneriaid i ddatblygu cynigion i gyflwyno deddfwriaeth i gydfynd yn well â'r cyfeiriad a amlinellir yn y Cynnig, creu perthynas ffurfiol glir rhwng rhinweddau arbennig penodol ardal ddynodedig a'r partneriaethau, y pwerau a'r polisiau sy'n sbardun i'w rheoli yn gynaliadwy.</li> <li>• Dylai CNC edrych yn fanwl gyda sefydliadau sy'n bartneriaid ar sut y mae Cynlluniau Rheoli tirweddau dynodedig a'r Datganiadau Ardal sydd wrthi'n cael eu llunio yn effeithio ar ei gilydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Edrych ar ffyrdd o sefydlu ac atgyfnerthu perthynas ffurfiol rhwng nodweddion arbennig ardal ddynodedig a rheolaeth gynaliadwy ar yr ardal honno.</li> <li>• Bydd CNC a'r tirweddau dynodedig yn edrych ar y potensial sydd gan bwerau i arloesi ac i arbrofi i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio a all roi mwy o gefnogaeth i sicrhau bod ecosystemau'n gydnerth a bod y Polisi Adnoddau Naturiol yn cael ei gyflawni, gan wneud hynny drwy weithio drwy'r tirweddau dynodedig i weithredu ar y raddfa honno.</li> </ul>
<p>Addas i'r Diben</p>	
<p>Diweddaru Ffyrdd o Lywodraethu: Gwella Perfformiad ac Atebolrwydd</p>	
<p>Dechrau yn awr</p>	<p>Dechrau ymhen 18 mis</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mabwysiadu'r Egwyddorion Llywodraethu yn fodel ar gyfer unrhyw ddynodiad yn y dyfodol. Cynnal adolygiad manylach o'r dulliau llywodraethu presennol, gan gyfeirio at yr Egwyddorion wrth wneud hynny, a chyflwyno argymhellion ar unrhyw newidiadau sydd eu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Treialu dulliau o sicrhau ystod ehangach o fodelau cyflawni, gan gynnwys partneriaethau a chyfrifoldebau ar y cyd neu ddirprwyedig</li> <li>• Ystyried yr opsiynau o ran sefydlu pwyntiau adolygu ffurfiol ar gyfer modelau llywodraethu sy'n bodoli eisoes a modelau</li> </ul>

<p>hangen.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai Llywodraeth Cymru a CNC ddatblygu a chyflwyno ffordd gyson o gynllunio ac o adrodd ar berfformiad.</li> <li>• Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor effeithiol yw Awdurdodau'r Parciau fel arweinwyr, ac i ran sbarduno perfformiad, a gweithio gyda'r Awdurdodau i roi unrhyw argymhellion ar waith.</li> <li>• Llywodraeth Cymru i gymryd camau i leihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag adrodd ac archwilio yn Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, gan weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i dreialu ffyrdd o gysoni gofynion a sicrhau mwy o dryloywder.</li> <li>• Cyrff rheoli tirweddau i fabwysiadu Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Trafod â'r Cyhoedd a chydweithio i gynnig canllawiau ar sut i wella y trafodaethau ynghylch tirweddau dynodedig.</li> </ul>	<p>llywodraethu newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac ymgynghori ar opsiynau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ehangach ar Fyrddau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Phartneriaethau'r AHNE yn unol â'r Egwyddorion Llywodraethu.</li> </ul>
<p>Arloesi gydag Adnoddau</p>	
<p>Dechrau yn awr</p>	<p>Dechrau ymhen 18 mis</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dechrau datblygu strategaeth adnoddau ar gyfer yr hirdymor sy'n mapio cyfleoedd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.</li> <li>• Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r AHNE, lunio cynigion sy'n creu model mwy cadarn ar gyfer darparu adnoddau.</li> <li>• Gyda sefydliadau megis y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, ymchwilio i gyfleoedd i ddenu cyllid elusennol neu gyllid drwy gymynroddion.</li> <li>• Dylai'r tirweddau dynodedig ffurfio grŵp er mwyn rhannu arferion da a'r hyn y byddant wedi'i ddysgu wrth wneud ceisiadau am gyllid. Dylent gydweithio i baratoi ceisiadau am gyllid.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu consensws er mwyn llywio cyfeiriad y Trefniadau Pontio Ewropeaidd a'r camau a fydd yn deillio ohonynt, er mwyn sicrhau bod camau priodol a dulliau cyflawni yn cael eu cyflwyno i reoli tirweddau dynodedig mewn ffordd gynaliadwy.</li> <li>• Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i edrych ymhellach ac i hysbysu pobl o'r nwyddau a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan dirweddau, gan ddefnyddio'r canfyddiadau fel tystiolaeth i arallgyfeirio'r adnoddau sy'n cael eu denu er mwyn rheoli rhinweddau arbennig yr ardal yn gynaliadwy.</li> </ul>
<p>Sbarduno Llesiant a Chydnerthedd</p>	
<p>Dechrau yn awr</p>	<p>Dechrau ymhen 18 mis</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai sefydliadau a phartneriaethau sy'n rheoli tirweddau dynodedig fynd ati i</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Chwilio am astudiaethau achos o'r arferion da sy'n bodoli eisoes ym maes Twf</li> </ul>

<p>feithrin ac i fireinio eu dealltwriaeth eu hunain o gydnherthedd yr economi leol ac o gyfleoedd economaidd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lle bo hynny'n briodol, dylai tirweddau dynodedig fabwysiadu'r cysyniad o gynllunio lleoedd er mwyn cysylltu cymunedau â lleoedd.</li> <li>• Dylai tirweddau dynodedig, ardaloedd sydd â statws Geoparc Rhyngwladol UNESCO, statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, statws Gwarchodfa Biosffer UNESCO, a Gwarchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol, gydweithio mwy, a rhoi mwy o gefnogaeth i'w gilydd er mwyn sicrhau'r manteision economaidd ac addysgol mwyaf posibl.</li> <li>• Nodi sut y gall dirweddau dynodedig adeiladu cydnherthedd o fewn yr ecosystem sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol.</li> <li>• Adolygu blaenoriaethau cyllido'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a buddsoddiadau eraill gan y tirweddau dynodedig a phartneriaid er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau hynny'n cefnogi mentrau economaidd lleol mewn ffordd effeithiol, gan wneud hynny ar sail blaenoriaethau ac anghenion lleol, a chan gysylltu'r gwaith hwnnw â gwaith cynllunio lleoedd.</li> <li>• Mynd ati pryd bynnag y bo modd i drafod yr angen dybryd am gysylltiadau band eang.</li> <li>• Sefydlu dulliau o ddefnyddio Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau yn effeithiol fel dull o gyflawni.</li> </ul>	<p>Gwyrdd a'r economi gylchol a chyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau peilot i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae tirweddau dynodedig yn llunio pecyn cymorth er mwyn helpu i sicrhau cysondeb wrth baratoi Cynlluniau Lleoedd, gan gydnabod ar yr un pryd bod angen i'r cynlluniau hynny fod yn wahanol er mwyn ymateb i anghenion lleol a bod angen cynnwys cenedlaethau'r dyfodol wrth fynd ati i'w paratoi.</li> <li>• Dylai tirweddau dynodedig weithio gyda Croeso Cymru i ddatblygu brand cryf ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac AHNE i sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosib at dwristiaeth Cymru.</li> <li>• Profi dulliau newydd o gynllunio ar gyfer rheoli tir mewn Tirwedd Ddynodedig, gan seilio'r gwaith ar arferion gorau ac ar egwyddorion gwasanaethau ecosystemau.</li> <li>• Gweithredu i fynd i'r afael â'r canfyddiad bod yna rwystrau sy'n llesteirio datblygiadau ynni adnewyddadwy mewn Tirweddau Dynodedig a phennu trywydd er mwyn dod yn hyrwyddwyr datblygiadau ynni adnewyddadwy mewn ardaloedd gwledig.</li> <li>• Datblygu prosiectau arddangos ym maes twf gwyrdd, yr economi gylchol, a Thaliadau am Wasanaethau Ecosystemau.</li> </ul>
--	---

Bydd y dull cydweithredol o weithio sy'n dod i'r amlwg drwy Dirweddau'r Dyfodol Cymru yn cael ei ddefnyddio i droi'r gweithgareddau hyn yn Gynllun Gweithredu a fydd yn fodd i sicrhau ymrwymiad gan bartneriaid i arwain, i gyfrannu ac i gyflawni. Bydd y Cynllun yn ddogfen fyw a fydd yn gallu ymateb i gyfleoedd a newid cyfeiriad, os dyna fydd dymuniad y partneriaid.

## Atodiadau

### Atodiad 1

#### Adroddiad Marsden

Dechreuwyd ar y gwaith o gynnal adolygiad annibynnol o ddiben Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol Cymru, ac o'r ffordd y maent yn cael eu llywodraethu, yn ystod hydref 2014. Fe'i cadeiriwyd gan yr Athro Terry Marsden, Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd. Diben yr adolygiad oedd ystyried sut mae tirweddau dynodedig, sy'n faes datganoledig, yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, a sut y maent yn cyflawni'r blaenoriaethau hynny, gan gynnwys twf gwyrdd a rheoli adnoddau naturiol.

Roedd yr adolygiad yn dilyn y gwaith a wnaed gan Gomisiwn Williams<sup>3</sup>, a oedd yn amlinellu pa mor bwysig a hanfodol yw newid ymddygiad yn yr hirdymor er mwyn newid diwylliant ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yn tynnu sylw at y berthynas rhwng diwylliant cadarnhaol, sy'n cael ei gefnogi gan arweinyddiaeth effeithiol, mewn sefydliad, a pherfformiad uchel. Roedd yn defnyddio gwybodaeth o Ymchwiliad Francis<sup>4</sup>, a ddaeth i'r casgliad nad oedd angen ad-drefnu radical er mwyn newid diwylliant. Yr hyn yr oedd ei angen oedd ailbwysleisio'r hyn sy'n wirioneddol bwysig.

Ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol y mae argymhellion 13 a 14<sup>5</sup> yn adroddiad Comisiwn Williams, ac maent yn hoelio sylw ar bwysigrwydd cydweithio, arweinyddiaeth, a chydgyssylltu. Mae'r argymhellion hynny yr un mor berthnasol i bartneriaethau'r AHNE.

Cyhoeddwyd Adroddiad Marsden yn 2015. Roedd yn galw am ffordd newydd o fynd i'r afael â'r dibenion a gwaith llywodraethu, ac yn ceisio rhoi rôl i'r tirweddau dynodedig a all helpu i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol mwyfwy cymhleth ac anghydraddoldebau o ran llesiant ac iechyd, a helpu hefyd i greu cymunedau gwledig mwy llewyrchus. Roedd yn cynnwys 69 o argymhellion a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o gynigion a sylwadau ar ddibenion, egwyddorion, gweledigaeth, modelau llywodraethu, cynllunio ac ariannu.

Gellir crynhoi'r argymhellion fel a ganlyn:

---

<sup>3</sup> Williams ac eraill, *Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*, Llywodraeth Cymru, 2014,

<sup>4</sup> Francis ac eraill, 2010, *Independent Inquiry into care provided by Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Ionawr 2005 – Mawrth 2009*

<sup>5</sup> 13. Mae'n rhaid i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddatblygu ffyrdd clir a chyson o gydweithio â'i gilydd, gydag awdurdodau lleol, gyda Croeso Cymru a chydâ Cyfoeth Naturiol Cymru, ar lawr gwlad, er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn gwneud y defnydd mwyaf posibl o adnoddau ac arbenigedd prin.

14. Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol sicrhau bod gwaith yn cael ei arwain a'i gydgyssylltu ar y lefel genedlaethol, a bod y defnydd mwyaf effeithiol yn cael ei wneud o adnoddau ac arbenigedd. Dylai'r Llywodraeth ystyried gwneud hynny drwy un awdurdod, gan gadw hunaniaeth wahanol y tri pharc. (paragraff 2.60)

1. Peidio â newid enw'r dynodiadau, statws cyfreithiol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol na modelau rheoli AHNE.
2. Diwygio eu diben, gan ddod yn gyfrwng i sbarduno datblygu rhanbarthol mewn ardaloedd gwledig, gan fabwysiadu dibenion cysylltiedig cyffredin – cadwraeth, llesiant a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.
3. Cryfhau'r rôl gefnogi a chyflenwi sydd gan gyrff eraill.
4. Ehangu ffiniau i gynnwys ardaloedd morol cyfagos.
5. Lleihau'r baich rheoleiddiol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau.
6. Creu Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol, Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a Phartneriaethau Lleol.
7. Cyflwyno Cynllun Partneriaeth ar gyfer pob ardal, a'r cynlluniau hynny'n rhai y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu arnynt ac yn eu mabwysiadu.
8. Cadw rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ran polisi cynllunio strategol a rheoli datblygu, a gwneud byrddau'r AHNE yn ymgynghoreion statudol.
9. Dileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a byrddau'r AHNE, adolygu eu cyfansoddiad, ac adolygu cyfran yr aelodau a benodir gan awdurdodau lleol, ac yn genedlaethol a "lleol".
10. Darparu grant craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer pob tirwedd ddynodedig, gan gyflwyno mwy o her ac amrywiaeth i'w cyllideb refeniw gyffredinol, ar sail strategaeth ar gyfer tirweddau cenedlaethol, gyda dangosyddion a thargedau Cymru gyfan.

Byddai'r blaenoriaethau cyflenwi a nodwyd gan Marsden yn golygu y byddai'r tirweddau dynodedig (a'u swyddogion) yn gysylltiedig â gwaith i ysgogi partneriaethau menter lleol, i gynyddu'r stoc o dai fforddiadwy cynaliadwy, i sicrhau bod mwy o ynni gwyrdd yn cael ei gynhyrchu, ac i hybu nifer y mentrau manwerthu. Ochr yn ochr â gweithgarwch economaidd, mae thema hefyd o weithio mwy gyda Byrddau Iechyd Lleol ar arbrofion iechyd a llesiant, gan gyrraedd cymunedau trefol a gwledig sy'n wynebu heriau. Mae'r thema honno'n datblygu mwy ar rai o'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Marsden yn argymhell setliad lle dylai'r tirweddau dynodedig a'r cyrff cysylltiedig gadw eu hunaniaeth a'u statws cyfreithiol, gan ddatblygu i fod yn gyrff datblygu rhanbarthol sydd hefyd yn mabwysiadu mesurau i ddiogelu cadwraeth, a fydd â llais, cyllid, targedau a dangosyddion cenedlaethol, ynghyd â byrddau a chynlluniau lleol.

Ar ei symlaf, hanfod y diwygio a argymhellir gan Adroddiad Marsden yw 'hyrwyddo'r' ddyletswydd bresennol ar y Parciau Cenedlaethol i roi sylw i les economaidd-gymdeithasol yr ardal fel un o'u dibenion, ac i roi'r un dibenion i'r AHNE. Mae'r holl argymhellion eraill yn ymwneud â'r strwythurau, y pwerau a'r offer sydd eu hangen er mwyn bwrw ymlaen â hynny.

Yn hytrach nag ymateb i'r adroddiad, sefydlodd Carl Sargeant, y Gweinidog ar y pryd, broses Tirweddau'r Dyfodol Cymru, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, i fwrw ymlaen ag ysbryd yr argymhellion mewn proses gydweithredol, a chan ystyried y fframwaith cyfreithiol newydd a ddarparwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r newidiadau posibl i'r strwythur cyflenwi ym maes llywodraeth leol.



## Atodiad 2

### Rhestr o cyfranwyr i Dirweddau'r Dyfodol: Darparu dros Gymru

Cadeirydd

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC

Enw	Sefydliad
Iolo ap Gwyn	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri/Annibynnol
Andrew Blake	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy
John Cook	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Howard Davies Eithriadol	Gymdeithas Genedlaethol dros Ardaloedd o Harddwch Naturiol
Melanie Doel	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Bridget Emmett	Canolfan Ecoleg a Hydroleg
Heather Galliford	RSPB Cymru
Richard Griffiths	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Edward Holdaway	Cynghrair ar gyfer Parciau Cenedlaethol
Mike James,	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Victoria Jenkins	Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
Arwel Jones	Partneriaeth Tirwedd Llŷn
Bleddyn Jones	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn
Llŷr Jones	Llywodraeth Cymru
Rhianne Jones	Wlad, Cymdeithas Tir a Busnes
Tegryn Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Mark Lang	Ffederasiwn y Busnesau Bach
Chris Lea	Llywodraeth Cymru
Matthew Lewis	Cyngor Sir Fynwy
Rachel Lewis-Davies	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Chris Lindley	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr
Katie-Jo Luxton	RSPB Cymru

Paul Meller	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr
Efan Milner	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn
Helen Mrowiec	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Peter Ogden	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Alun Owen	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn
James Parkin	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Matthew Quinn	Llywodraeth Cymru
Carole Rothwell	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ian Rowat	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Rachel Sharp	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
David Shiel	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Jeremy Smith	Adnewyddadwy DU Cymru
Howard Sutcliffe	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Sean Taylor	Zip World
Liza Thomas	Cyfoeth Naturiol Cymru
John Watkins	Llywodraeth Cymru
Laura White	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Bronwen Williams	Canolfan Ecoleg a Hydroleg
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Rebecca Williams	Wlad, Cymdeithas Tir a Busnes
Einir Young	Prifysgol Bangor
Hwyluswyr	
Richard Clarke	Cymdeithas Genedlaethol o Ardaloedd Harddwch Naturiol Eithriadol
John Langford	Cofac
Liz Staniforth	Datblygu & Dysgu Odyssey